# Demograffeg

## Asesiad Caerdydd o Les Lleol


**Ds:** Cynhaliwyd yr asesiad hwn drwy ddefnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael. Mewn llawer o achosion ni fydd hyn yn cipio effaith lawn pandemig byd-eang Covid-19. Cafodd gwaith i gasglu rhai setiau data ei atal yn sgil y pandemig hefyd.

# Dangosyddion

1. Amcangyfrifon o'r Boblogaeth yn ôl Grŵp Oedran
2. Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdod Lleol yn ôl Grŵp Oedran ar sail 2018
3. Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdod Lleol yn ôl Grŵp Oedran 2018-2043
4. Genedigaethau Byw a Chyfraddau Geni
5. Cyfraddau Geni ac Amcanestyniadau Cyfraddau Geni
6. Cyfradd Marwolaethau a Marwoldeb
7. Newid yn y Boblogaeth - Marwolaethau yn ystod y cyfnod
8. Ymfudo
9. Ethnigrwydd
10. Gwlad Enedigol
11. Prif Iaith
12. Cyfanswm y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd
13. Canran y bobl 16+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg
14. Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau yn Gymraeg
15. Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd
16. Nifer y bobl sy'n eu hystyried eu hunain yn Gymry

# 1. Amcangyfrifon o'r Boblogaeth yn ôl Grŵp Oedran

**Pwyntiau Allweddol:**
- Yn y cyfnod 1991-2020, gwelwyd cynnydd o 72,261 o drigolion ym mhoblogaeth Caerdydd
- I raddau cymesur, gwelwyd cynnydd mwy yn y boblogaeth 16-64 yng Nghaerdydd, a gododd o 63.7% i 67.3% o gyfanswm y boblogaeth.
- Plant a phobl ifanc 0-15 oed sydd i gyfrif am 18.4% o gyfanswm y boblogaeth, a phobl 65+ oed sydd i gyfrif am 14.3%.





*Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol Blwyddyn, ONS*


## 2. Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdod Lleol yn ôl Grŵp Oedran ar sail 2018

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2018 yn dangos bod twf y boblogaeth wedi arafu, gan ragweld cynnydd o 24,642 o breswylwyr dros 25 mlynedd (2018-2043), o gymharu â chynnydd o 65,063 dros y 25 mlynedd blaenorol (1993-2018).
- Gwelir twf yn y bobl 65+ oed yn amcanestyniadau poblogaeth Caerdydd, gan gynyddu o 14.1% o gyfanswm y boblogaeth yn 2018 i 17.6% yn 2043, er bod hyn yn parhau i fod yn is na'r ffigurau cymharol ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, bydd nifer y bobl 65+ oed yn tyfu'n gynt yng Nghaerdydd (cynnydd o 33.2%) erbyn 2043 nag yng Nghymru (30.6%).
- I raddau cymesur, rhagwelir y bydd cyfran y categorïau oedran 0-15 ac 16-64 oed o gyfanswm y boblogaeth yn gostwng 1.7 ac 1.8 pwynt canran, yn yr un drefn, ac mewn termau absoliwt, rhagwelir y ceir gostyngiad o 2,045 yn nifer y plant a'r bobl ifanc 0-15 oed.




*Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth ar sail 2018, Llywodraeth Cymru*





*Ffynhonnell: Amcanestyniadau Cenedlaethol ar sail 2018, ONS*

# 3. Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdod Lleol yn ôl Grŵp Oedran 2018-2043

**Pwyntiau Allweddol:**

- O gymharu poblogaeth 2018 ag amcanestyniadau poblogaeth 2043, gellir gweld cynnydd clir yn y boblogaeth 65+ oed.
- Mae'r dadansoddiad o'r boblogaeth hefyd yn dangos bod poblogaeth Caerdydd yn tueddu i fod yn iau, gyda lefelau uwch o bobl ifanc 18-35 oed nag a geir yng ngweddill y boblogaeth.

Amcanestyniad o Boblogaeth Caerdydd yn ôl Oedran, 2018 v 2043 (yn seiliedig ar 2018)






*Ffynhonnell: Amcanestyniadau Poblogaeth ar sail 2018, Llywodraeth Cymru*

# 4a. Genedigaethau Byw a Chyfraddau Geni

**Pwyntiau Allweddol:**

- Er 2013, mae nifer y genedigaethau byw bob blwyddyn wedi gostwng ar gyfer Caerdydd a Chaerdydd a Bro Morgannwg
- Mae cyfradd fras genedigaethau Caerdydd wedi gostwng dros y cyfnod, a hynny ynghynt nag ar draws Cymru.









DS. Cyfradd fras y genedigaethau yw nifer y genedigaethau byw fesul 1,000 o'r boblogaeth o bob oed.

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

# 4b. Genedigaethau Byw a Chyfraddau Geni (parhad)

**Pwyntiau Allweddol:**
- Mae cyfradd ffrwythlondeb gyffredinol Caerdydd wedi gostwng dros 12 pwynt canran ers 2013, ac ar hyn o bryd 7 pwynt canran yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae cyfanswm cyfradd ffrwythlondeb Caerdydd wedi gostwng ar gyfradd debyg i Gymru gyfan, er i'r gyfradd honno fod yn gyson is na chyfartaledd Cymru.




DS. Y Gyfradd Ffrwythlondeb Gyffredinol yw nifer y genedigaethau yw fesul 1,000 o'r boblogaeth o fenywod 15 i 44 oed, wedi'i chyfrifo drwy ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn.


Cyfanswm y Gyfradd Ffrwythlondeb yw nifer cyfartalog y plant byw y byddai grŵp o fenywod yn eu geni o brofi cyfraddau ffrwythlondeb oedran-benodol y flwyddyn galendr dan sylw, drwy gydol eu hoes esgor.

*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*


# 5. Cyfraddau Geni ac Amcanestyniadau Cyfraddau Geni

**Pwyntiau Allweddol:**

- Erbyn 2043, rhagwelir y ceir cynnydd o oddeutu 10% yn nhermau nifer y genedigaethau blynyddol yng Nghaerdydd, gyda chynnydd graddol bob blwyddyn. Gellir cymharu hyn â chynnydd o oddeutu 5% yng Nghymru gyfan dros yr un cyfnod.
- Dengys amcanestyniadau y bydd y duedd i ostwng a gafwyd mewn genedigaethau'n ddiweddar (2010 - 2020) yn newid, gan dueddu i gynyddu rhyw fymryn dros y 25 mlynedd nesaf.





*Ffynhonnell: Cydrannau Newid Amcangyfrifon Canol Blwyddyn, Llywodraeth/ONS*





*Ffynhonnell: Cydrannau Newid Amcanestyniadau Poblogaeth ar sail 2018, Llywodraeth Cymru*

# 6. Cyfradd Marwolaethau a Marwoldeb

**Pwyntiau Allweddol:**
- Er 2013 mae nifer y marwolaethau blynyddol yng Nghaerdydd wedi tueddu i gynyddu ar y cyfan.
- Yn nhermau'r gyfradd marwoldeb wedi'i safoni gan oedran, mae cyfradd Caerdydd fymryn yn is na chyfartaledd Cymru gyfan.








*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*


# 7. Newid yn y Boblogaeth - Marwolaethau yn ystod y cyfnod

**Pwyntiau Allweddol:**

- Er 2013, gwelwyd cynnydd yn nifer y marwolaethau blynyddol yng Nghaerdydd, a rhagamcennir y bydd y duedd honno'n parhau rhwng 2018 a 2043, er bod y gyfradd twf yn is na chyfradd Cymru gyfan.




*Ffynhonnell: Cydrannau Newid Amcangyfrifon Canol Blwyddyn, Llywodraeth/ONS*





*Ffynhonnell: Cydrannau Newid Amcanestyniadau Poblogaeth ar sail 2018, Llywodraeth Cymru*


# 8. Ymfudo

**Pwyntiau Allweddol:**

- Gwelwyd cyfanswm ymfudo net positif am sawl blwyddyn yng Nghaerdydd, wedi'i ysgogi gan lefelau uchel o ymfudo rhyngwladol net. Mae hyn wedi gwrthbwyso all-lif net o bobl a ymfudodd yn fewnol dros y rhan fwyaf o'r 20 mlynedd diwethaf.
- Rhagwelir y bydd mymryn yn fwy yn mewnfudo i Gaerdydd nag yn allfudo ohoni dros y 15 mlynedd nesaf, ac wedyn y ceir 10 mlynedd o ymfudo net negyddol. Bydd lefelau cyson net o ymfudwyr tramor yn gwrthbwyso all-lifoedd negyddol o bobl sy'n ymfudo i rannau eraill o'r DU.




*Ffynhonnell: Cydrannau Newid Amcangyfrifon Canol Blwyddyn, Llywodraeth/ONS*





*Ffynhonnell: Cydrannau Newid Amcanestyniadau Poblogaeth ar sail 2018, Llywodraeth Cymru*


## 9. Ethnigrwydd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Dangosai Cyfrifiad 2011 fod 15.3% o boblogaeth Caerdydd yn perthyn i grŵp ethnig nad yw'n wyn, sydd yn llawer uwch na'r gyfran o 4.4% ledled Cymru.
- Mae amcangyfrifon cyfresi amser yn dangos bod canran y bobl yng Nghaerdydd sy'n Ddu, yn Asiaidd ac yn lleiafrifol ethnig wedi bod yn gymharol sefydlog rhwng 2012 a 2021, er bod y ffigur wedi parhau i fod yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru.




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*





*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, StatsCymru*


# 10. Gwlad Enedigol

**Pwyntiau Allweddol:**

- Mae Caerdydd yn cynnwys cyfran sylweddol uwch o breswylwyr wedi'u geni y tu allan i'r Deyrnas Unedig na'r gyfran ar gyfer Cymru (13.3% o gymharu â 5.5%)
- Gellir priodoli'r gwahaniaeth hwn yn bennaf i'r gwahaniaethu yng nghyfran y preswylwyr a gafodd eu geni:
  - Yng Ngwledydd yr UE Caerdydd - 3.3% Cymru - 1.8%
  - Yn Affrica Caerdydd - 2.2% Cymru - 0.7%
  - Yn y Dwyrain Canol ac Asia Caerdydd - 6.0% Cymru - 1.9%

*[DS - Ffigurau yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011. Bydd preswylwyr a anwyd yng Nghroatia wedi'u cynnwys gyda ffigurau Gweddill Ewrop yn hytrach na Gwledydd yr UE.*








*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

# 11. Prif Iaith

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yng Nghaerdydd, mae 91.7% o'r preswylwyr yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel prif iaith - dyma'r gyfradd isaf yng Nghymru'n braf, ac mae'n llawer is na chyfran Cymru gyfan o 97.1%.
- Mae cyfran sylweddol o breswylwyr Caerdydd felly'n siarad iaith arall ar wahân i Gymraeg neu Saesneg fel prif iaith, sef 8.3%.





| Prif Iaith | Caerdydd | | Caerdydd a Bro Morgannwg | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Saesneg (Cymraeg neu Saesneg os yng Nghymru) | 304,729 | 91.7 | 424,755 | 93.5 | 2,871,405 | 97.1 |
| Iaith arall y DU: Cyfanswm | 23 | 0.0 | 24 | 0.0 | 133 | 0.0 |
| Ffrangeg | 766 | 0.2 | 859 | 0.2 | 2,073 | 0.1 |
| Portiwgaleg | 682 | 0.2 | 714 | 0.2 | 2,451 | 0.1 |
| Sbaeneg | 597 | 0.2 | 679 | 0.1 | 1,668 | 0.1 |
| Iaith Ewropeaidd Arall (UE): Cyfanswm | 6,516 | 2.0 | 7,165 | 1.6 | 30,316 | 1.0 |
| Iaith Ewropeaidd Arall (y tu allan i'r UE): Cyfanswm | 180 | 0.1 | 239 | 0.1 | 694 | 0.0 |
| Iaith Ewropeaidd Arall (nad yw'n iaith genedlaethol): Cyfanswm | 11 | 0.0 | 11 | 0.0 | 16 | 0.0 |
| Rwsieg | 286 | 0.1 | 332 | 0.1 | 1,095 | 0.0 |
| Twrceg | 161 | 0.0 | 196 | 0.0 | 1,340 | 0.0 |
| Arabeg | 3,561 | 1.1 | 3,644 | 0.8 | 6,800 | 0.2 |
| Iaith Gorllewin/ CANOL Asia: Cyfanswm | 1,927 | 0.6 | 1,982 | 0.4 | 3,241 | 0.1 |
| Iaith De Asia: Cyfanswm | 6,863 | 2.1 | 7,127 | 1.6 | 15,665 | 0.5 |
| Iaith Dwyrain Asia: Cyfanswm | 3,686 | 1.1 | 4,163 | 0.9 | 13,816 | 0.5 |
| Iaith Gefnforol / Awstralia (unrhyw un) | 4 | 0.0 | 23 | 0.0 | 63 | 0.0 |
| Iaith Gogledd/ De America (unrhyw un) | 2 | 0.0 | 2 | 0.0 | 4 | 0.0 |
| Creole Caribïaidd: Cyfanswm | 0 | 0.0 | 0 | 0.0 | 4 | 0.0 |
| Iaith Affricanaidd: Cyfanswm | 2,048 | 0.6 | 2,095 | 0.5 | 3,485 | 0.1 |
| Ieithoedd Eraill: Cyfanswm | 102 | 0.0 | 110 | 0.0 | 454 | 0.0 |
| Iaith Arwyddion: Cyfanswm | 129 | 0.0 | 171 | 0.0 | 1,118 | 0.0 |
| Pob preswylydd arferol 3 oed a hŷn | 332,273 | 100.0 | 454,291 | 100.0 | 2,955,841 | 100.0 |


*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

# 12. Cyfanswm y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd

**Pwyntiau Allweddol:**

- Am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, roedd cyfanswm o 89,600 o siaradwyr (3 oed neu'n hŷn) yng Nghaerdydd, sy'n cynrychioli 24.8% o'r boblogaeth 3+ oed.
- Cafwyd cynnydd o 34,500 o siaradwyr i'r ffigur hwn, neu tua 63%, ers mis Mehefin 2016; mae cyfanswm canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd wedi codi 9 pwynt canran dros yr un cyfnod.
- Fel yn 2016, mae Caerdydd yn dal yn y trydydd safle yng Nghymru o ran cyfanswm y siaradwyr Cymraeg, ar ôl Gwynedd a Sir Gaerfyrddin, ond mae'r bwlch hwn wedi lleihau'n sylweddol a gallai Caerdydd fynd heibio'r naill a'r llall yn y blynyddoedd nesaf.
- I raddau helaeth, gellir priodoli'r cynnydd sylweddol hwn mewn siaradwyr Cymraeg i ymfudiad siaradwyr Cymraeg o ranbarthau eraill yng Nghymru a'r  ffaith bod darpariaeth addysg Gymraeg wedi ehangu'n gyflym dros y blynyddoedd diwethaf.









*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Llywodraeth Cymru*

# 13. Canran y bobl 16+ oed sy'n gallu siarad Cymraeg

**Pwyntiau Allweddol:**

- Ar 10%, mae canran y bobl 16+ oed yng Nghaerdydd sy'n gallu siarad Cymraeg yn is na chyfartaledd Cymru o 16%.
- Arhosodd canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn gymharol sefydlog rhwng 2016-17 a 2019-20, gan godi o 9% i 10% yn ystod y cyfnod hwn.
- Yn nata Llywodraeth Cymru o 2019-20, mae 10% o'r oedolion (16+) yng Nghaerdydd sy'n siarad Cymraeg, ond mae 4% arall yn nodi bod ganddynt rai sgiliau Cymraeg, a fyddai'n cynyddu'r cyfanswm i 14% o breswylwyr Caerdydd sy'n gallu siarad Cymraeg hyd at ryw lefel o leiaf.
  *[DS. Ni fydd data awdurdod lleol Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 ar gael oherwydd y pandemig.]*





DS. Nid yw'r ffigurau ar gyfer Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd na Thorfaen wedi'u cynnwys yn y siart gan fod y data'n ddadlennol neu heb fod yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*


# 14. Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau yn Gymraeg

**Pwyntiau Allweddol:**

- Yn 2019-20, roedd Caerdydd yn cynnwys un o'r canrannau isaf o siaradwyr Cymraeg dyddiol a chymharol gryf yng Nghymru, sef 5.7%, a oedd yn is na chyfartaledd Cymru o 10.4% a'r lefelau llawer uwch yn y Gogledd a'r Gogledd Orllewin.
- Rhwng 2013-14 a 2019-20, roedd y ganran yn parhau'n gymharol sefydlog.
  *[DS. Mae data awdurdod lleol ar gael ar gyfer 2020/21, ond mae data Caerdydd yn ddadlennol, neu heb fod yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.]*




DS. Nid yw'r ffigurau ar gyfer sawl awdurdod lleol wedi'u cynnwys yn y siart gan fod eu data'n ddadlennol neu heb fod yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.





DS. Mae ffigurau Caerdydd ar gyfer 2012-13 a 2020-21 yndadlennol neu heb fod yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi.

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*

# 15. Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd


**Pwyntiau Allweddol:**
- Rhoddwyd lle mewn dosbarth Derbyn i 764 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer mis Medi 2020, sef 18.5% o'r cyfanswm a dderbyniwyd, o gymharu â 690 o ddisgyblion, sef 15.9% o'r cyfanswm a dderbyniwyd yn 2015/16.
- Ffigur 2020 sy'n cynrychioli'r nifer uchaf o dderbyniadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd.





*Ffynhonnell: Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg/Adroddiad Addysg Blynyddol (Cyngor Caerdydd)*

# 16. Canran y bobl sy'n eu hystyried eu hunain yn Gymry

**Pwyntiau Allweddol:**
- Am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021, roedd 55.3% o bobl yng Nghaerdydd yn eu hystyried eu hunain yn Gymry, sy'n llawer is na'r ffigur 88.5% ym Merthyr Tudful.
- Mae cyfradd Caerdydd wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2012, ac wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru.




*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth/Llywodraeth Cymru*